COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

REPORT TO: **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CABINET**

SUBJECT: **CABINET - DYDD LLUN, 10 CHWEFROR 2025 DYDD LLUN, 10 CHWEFROR 2025**

REPORT OF:

PRESENT: S. THOMAS (CADEIRYDD)

Councillors H. Cunningham
J. C. Morgan
H. Trollope
S. Edmunds

WITH: Cyd-Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol
Pennaeth Cydymffurfio Cyfreithiol a Chorfforaethol
Rheolwr Gwasanaeth - Cyfrifyddiaeth
Swyddog y Wasg

PENDERFYNIADAU DAN BWERAU WEDI EU DIRPRWYO

ITEM	SUBJECT	ACTION
No. 1	**CYFIEITHU AR Y PRYD** Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

No. 2	**<u>YMDDIHEURIADAU</u>** Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Gyfarwyddwr Corfforaethol Interim y Gwasanaethau Cymdeithasol.	
No. 3	**<u>DATGANIADAU O FUDDIANT A GODDEFEBAU</u>** Ni hysbyswyd ynghylch unrhyw ddatganiadau o fuddiant na goddefebau.	
No. 4	**<u>CYLLIDEB REFENIW 2025/2026 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG</u>** Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifyddiaeth. PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac argymell Opsiwn 1 wrth y Cyngor fel a ganlyn:- • Y tybiaethau a ddefnyddiwyd i ddatblygu Amcangyfrifon Drafft 2025/2026 (paragraffau 5.1.4 i 5.1.10). • Y pwysau o ran costau a nodwyd ym mharagraffau 5.1.11 i 5.1.17 ac a ddangoswyd yn nhabl 2 yn 5.1.8 mewn perthynas â'r canlynol:- - y Cyngor - £2.3m - Ysgolion - £2.4m - Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin - £0.4m • Bod y grantiau sy'n trosglwyddo i mewn i'r Setliad ar gyfer 2025/2026 yn cael eu pasbortio i'r gwasanaethau perthnasol fel a nodwyd ym mharagraff 2.8 ac a gynhwyswyd yn nhabl 2 yn 5.1.16. • Toriadau/arbedion effeithlonrwydd y gyllideb Pontio'r Bwlch ym mharagraffau 5.1.18 i 5.1.23. • Cynnydd o 4.95% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/2026. • Y SATC wedi'i diweddaru ar gyfer 2025/2026 i 2029/2030 a	

	oedd wedi'i hatodi yn Atodiad 2.	
No. 5	**<u>FFIOEDD A THALIADAU YN ÔL DISGRESIWN 2025/26</u>** Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Corfforaethol. PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar Opsiwn 1, fel a ganlyn:- 1. Bod y Cabinet yn argymell wrth y Cyngor bod y gofrestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2025/2026 a oedd wedi'i hatodi yn Atodiad 1 yn cael ei chymeradwyo ac ar gyfer ffioedd a thaliadau yn ôl disgresiwn bod cynnydd yn y ffi o 3% yn cael ei gymeradwyo yn unol â'r dybiaeth ar gyfer chwyddiant o fewn y SATC, y ffi amgen a gynigiwyd fel a nodwyd ym mharagraffau 5.1.5 i 5.1.14; 2. argymell wrth y Cyngor bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddirprwyo pŵer a chyfrifoldeb i Gyfarwyddwr Interim y Gwasanaethau Cymdeithasol i bennu'r ffioedd a thaliadau ar gyfer 2025/2026 mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol allanol a Chwrt Mytton fel a nodwyd ym mharagraff 5.1.7; ac 3. argymell wrth y Cyngor bod y codiadau prisiau craidd mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a oedd wedi'u hatodi yn Atodiad 2 yn cael eu cymeradwyo.	